# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 16 Mehefin 2015** | |
| Amser: | **09.00 – 10.59** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2924**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar AC (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Jocelyn Davies AC**<br>**Mike Hedges AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Julie Morgan AC**<br>**Jenny Rathbone AC**<br>**Aled Roberts AC** |
| Tystion: | **Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru**<br>**Joanna Jordan, Llywodraeth Cymru**<br>**Dr Grant Robinson, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Michael Kay (Clerc)**<br>**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru)**<br>**Dave Thomas (Swyddfa Archwilio Cymru)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am ymadawiadau cynnar (Mehefin 2015)

2.2 Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Sir Powys am ymadawiadau cynnar (Mehefin 2015)

2.3 Cyllid Iechyd 2013-14: Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf (Mai 2015)

## 3 Gofal heb ei drefnu: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

3.1 Penderfynodd y Pwyllgor ddechrau'r sesiwn dystiolaeth gyda Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru gyda thrafodaeth ar lywodraethu byrddau iechyd. Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon a bydd yn cael ei haildrefnu.

## 4 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Joanna Jordan, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i ymchwiliad i Lywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru.
4.2 Cytunodd Dr Goodall i:

- gadarnhau amseriad adroddiad Capita ar gynllunio ariannol, pan fyddai'r Bwrdd yn trafod ei ymateb dros dro.
- darparu nodyn o'r holl ddigwyddiadau difrifol yn deillio o lefel nyrsys / ward yn ystod y deuddeg mis diwethaf ledled Cymru.
- darparu nodyn o aelodau annibynnol presennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'u sgiliau a'r profiad o recriwtio pobl o gefndiroedd ariannol / masnachol.
- darparu nodyn ar gydymffurfio â'r Polisi Disgyblu Cymru Gyfan (a chopi o'r polisi).

- anfon copi o'r adroddiad gan y Gymdeithas Frenhinol y Seiciatryddion a'r camau a gymerwyd.
- darparu nodyn ar agweddau gweithredol y gwasanaeth y tu allan i oriau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

5.1 Gwrthodwyd y cynnig.

## 6 Gofal heb ei drefnu: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1 Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon.

## 7 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Oherwydd bod amser yn brin, ni chyrhaeddwyd yr eitem hon.